Adolygiad Mawrth 2019

**PRIFYSGOL BANGOR**
**ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB**

Dylid cynnwys Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb fel rhan hanfodol o'r broses o ddatblygu polisi newydd, adolygu polisi a gwneud penderfyniadau strategol a gweithrediadol[1] er mwyn sicrhau y ceir gwared ag unrhyw anghydraddoldeb a gwahaniaethu neu y rhoddir sylw iddynt cyn gynted â phosib.

Mae'r rhestr wirio hon yn rhan o ddull y brifysgol o ymdrin ag asesu effaith ar gydraddoldeb a dylid ei defnyddio i asesu effaith y polisi ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

---

**GRWPIAU CYDRADDOLDEB:**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Oedran** | **Anabledd** | **Ailddynodi Rhywedd** | **Beichiogrwydd a mamolaeth** | **Yr Iaith Gymraeg** |
| **Hil** | **Crefydd a chred** | **Rhyw** | **Cyfeiriadedd rhywiol** | **Math y Contract** |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | | | | |

Sylwer - Mae’n ymarfer da ystyried materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg ac â'r math o gontract er bod y meysydd hynny o dan ddeddfwriaeth wahanol i Ddeddf Cydraddoldeb 2010

**Enw neu Deitl y Polisi: -**

Cod 11: 2018 Fersiwn 01: Darpariaeth Gynhwysol i Fyfyrwyr Anabl

---

[1] Er y defnyddir y gair POLISI yn y templed hwn, dylid ei newid i STRATEGAETH/PENDERFYNIAD GWEITHREDIADOL fel bo'n briodol

| Gwybodaeth am y polisi: | |
|---|---|
| Beth yw pwrpas y polisi? | Mae'r Cod hwn yn nodi polisi a dulliau gweithredu ar y ddarpariaeth i ddarpar fyfyrwyr a myfyrwyr presennol sy'n rhoi tystiolaeth ddogfennol o anabledd. |
| Pwy sy'n gyfrifol am y polisi? | Pennaeth y Gwasanaethau Anabledd. |
| Beth yw cysylltiad y polisi â blaenoriaethau strategol y brifysgol? | Ein Cenhadaeth: "profiad cynhwysol".<br><br>Ein Gwerthoedd: "amgylchedd diogel, croesawgar a chynhwysol". |
| Pa grwpiau sy'n rhanddeiliaid yn y polisi? | Myfyrwyr presennol.<br>Darpar fyfyrwyr.<br>Staff. |
| A fydd y polisi'n cael ei ddefnyddio'n unffurf ym mhob maes yn y brifysgol? | Bydd. |
| Nodwch y grwpiau y mae'r polisi'n berthnasol iddynt. | Myfyrwyr presennol.<br>Darpar fyfyrwyr. |

| A roddwyd ystyriaeth i'r materion canlynol? (un o ofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus) | |
|---|---|
| A allai unrhyw elfennau o'r polisi fod yn wahaniaethol, boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol? | Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, pwrpas y Cod yw sicrhau na wahaniaethir yn erbyn myfyrwyr anabl, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, a bod addasiadau rhesymol yn cael eu gweithredu. Mae'r Cod yn berthnasol i bob myfyriwr anabl, waeth beth fo'r nodweddion gwarchodedig eraill. |
| A ellid defnyddio'r polisi i hyrwyddo amrywiaeth a chyfle cyfartal? | Bwriad y Cod yw sicrhau bod myfyrwyr anabl yn cael profiad cyffelyb i'r profiad a gaiff myfyrwyr heb anabledd a'u bod yn derbyn yr hyn sydd ar gael iddynt. Mae polisi a dulliau gweithredu yn sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu gweithredu. |
| A ellid defnyddio'r polisi i hyrwyddo perthynas dda rhwng pobl? | Mae'r Cod yn gwneud hawliau myfyrwyr anabl yn dryloyw ac felly'n dileu rhwystrau, ac yn hyrwyddo tegwch a chysylltiadau da. |

Adolygiad Mawrth 2019

| **Monitro** | |
|---|---|
| Pa ddata meintiol neu ansoddol sydd ar gael i gyfrannu at y polisi? | Cyflwynir data am fyfyrwyr i'r Gweithgor Anabledd sy'n monitro polisi a dulliau gweithredu mewn perthynas â myfyrwyr anabl. |

| **Ymgynghori** | |
|---|---|
| Pa grwpiau yr ymgynghorwyd â hwy wrth ddrafftio’r polisi? | Y Gweithgor Anabledd - sy'n monitro polisi a dulliau gweithredu mewn perthynas â myfyrwyr anabl. Mae myfyrwyr a chynrychiolwyr Undeb y Myfyrwyr yn aelodau o'r Gweithgor Anabledd.<br>Grŵp Tasg Gwasanaethau Myfyrwyr.<br>Grŵp Tiwtoriaid Anabledd.<br>Grŵp Uwch Diwtoriaid.<br>Pwyllgor Rheoliadau'r Senedd sy'n gyfrifol am gymeradwyo a diwygio'r weithdrefn hon. |
| Sut y cynhaliwyd yr ymgynghoriad? | Fel uchod. Hefyd, gall unrhyw fyfyriwr neu aelod staff roi sylwadau am y ddarpariaeth i Bennaeth y Gwasanaethau Anabledd neu Gyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr. |
| Sut mae’r ymgynghoriad wedi cyfrannu at ddatblygu'r polisi? | Mae gan y weithdrefn gylch adolygu sefydlog lle caiff datblygiadau eu cynnwys. |

| **Gweithredu** | |
|---|---|
| Sut y gweithredir y polisi? | Pwyllgor Rheoliadau'r Senedd sy'n gyfrifol am gymeradwyo a diwygio'r weithdrefn hon.<br><br>Mae'r Cod ar gael ar-lein yn www.bangor.ac.uk a hefyd mewn print neu fformatau eraill ar gais. Mae adnoddau cefnogol ar gael yn: www.bangor.ac.uk/studentservices/disability/info_staff.php Cynigir gweithdai ar gefnogi myfyrwyr anabl i staff fel rhan o'r rhaglen CELT.<br>Mae ymgynghorwyr yn cyflwyno hyfforddiant i ysgolion academaidd ac adrannau ar gais. |

Adolygiad Mawrth 2019

| | |
|---|---|
| Pwy fydd yn gyfrifol am weithredu'r polisi? | Pennaeth y Gwasanaeth Anabledd sy'n gyfrifol am reoli'r weithdrefn. |

Adolygiad Mawrth 2019

| **Monitro** | |
|---|---|
| Sut bydd y polisi'n cael ei fonitro er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd ei nod? | Monitro parhaus a Phennaeth y Gwasanaethau Anabledd yn adrodd i'r Gweithgor Anabledd. |
| Pwy fydd yn gyfrifol am fonitro'r polisi? | Gweithgor Anabledd. |
| Sut caiff y polisi ei fonitro er mwyn sicrhau na wnaiff roi grwpiau penodol o dan anfantais? | Caiff unrhyw faterion cydraddoldeb sy'n codi eu harchwilio a rhaid gwneud unrhyw addasiadau rhesymol. |
| Pryd caiff y polisi ei adolygu i ganfod a yw'n cyrraedd ei nod a'i amcanion? | Mae'r weithdrefn hon ar gylch adolygu 3 blynedd. |

| **Y goblygiadau o ran adnoddau** | |
|---|---|
| Hyfforddiant – a oes unrhyw ofynion hyfforddi'n gysylltiedig â datblygu, gweithredu neu fonitro'r polisi hwn? | Mae adnoddau cefnogol ar gael yn: www.bangor.ac.uk/studentservices/disability/info_staff.php<br><br>Cynigir gweithdai ar gefnogi myfyrwyr anabl i staff fel rhan o'r rhaglen CELT.<br><br>Mae ymgynghorwyr yn cyflwyno hyfforddiant i ysgolion academaidd ac adrannau ar gais.<br><br>Mae Fframwaith Ymarfer Da Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol yn disgwyl bod holl Staff y Brifysgol yn gyfarwydd ag egwyddorion ymarfer da wrth gefnogi myfyrwyr anabl. https://www.oiahe.org.uk/media/1039/oia-good-practice-framework-supporting-disabled-students.pdf<br>Mae Pennaeth Gwasanaethau Anabledd wedi rhoi adroddiadau cyfarwyddyd i'r Grŵp Tasg Addysgu a Dysgu, Tiwtoriaid Anabledd a Chyfarwyddwyr Addysgu a Dysgu. |
| Beth yw'r goblygiadau eraill o ran adnoddau (gan gynnwys amser a baich gwaith) o weithredu'r polisi hwn? | Mae adnoddau ar-lein ar gael yn www.bangor.ac.uk |

Adolygiad Mawrth 2019

| **ARGYMHELLION A DYDDIAD ADOLYGU** | |
|---|---|
| 3 mlynedd | |
| **ASESIAD EFFAITH – LLOFNOD A DYDDIAD** | |
| Carolyn Donaldson-Hughes | 5 Mawrth 2019 |